[75] **Alun Cairns:** You mentioned the non-statutory guidance that the Assembly has issued to local authorities, but the second bullet point under paragraph 3.22 states that, in Neath Porth Talbot County Borough Council, with 3,000 people on a waiting list, it was calculated that it would take 71 years to clear it at its existing rate of approval. Do you think that that is acceptable?

Sir Jon Shortridge: No, of course that situation is not acceptable, and that is one of the reasons why the new flexible system has been introduced, so that local authorities can target their money at what they see as the priorities.

[76] **Alun Cairns:** Those are just two of the problems—maybe the needy not understanding that they might be eligible for grant, as well as the long timescale that we could well face. If we are not to use non-statutory guidance, what means are available to the Assembly in order to improve this without being centralist, if you like?

Sir Jon Shortridge: Well, I suppose it is anticipating part 4 of the report. The view is that, having now got the condition of the housing stock into a much better condition than it was in the early 1990s, you have a

drefniadau canolog a chyfarwyddol iawn, sydd yn rhoi cryn atebolrwydd ar y Cynulliad, i un lle mae gennym system wedi ei datganoli. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol eu hunain, sydd lawer yn agosach at eu tai lleol, yw pennu sut y dylid gwella ac adnewyddu eu stoc tai. Y swyddogaeth ar lefel Cymru gyfan, ar lefel y Cynulliad, yw monitro sut y gweithredir y trefniadau hyn. Dylai'r Cynulliad geisio defnyddio'i ddylanwad drwy'r canllawiau anstatudol sylweddol iawn yr ydym wedi'u rhoi, a thrwy y mathau o gysylltiadau sydd gan Brendon a'i gydweithwyr gyda'r awdurdodau er mwyn gallu rhannu a dysgu arferion gorau. A dylai wneud hynny drwy ddefnyddio'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru er mwyn iddo allu ymarfer ei swyddogaeth reoleiddio i helpu gwella'r ffordd y mae'r arian yn cael ei wario a'r stoc tai ei hun yn cael ei wella. Dyna'r system sydd gennym.

[75] **Alun Cairns:** Soniech am y canllawiau anstatudol y mae'r Cynulliad wedi'u rhoi i awdurdodau lleol. Ond mae'r ail bwynt bwled dan baragraff 3.22 yn nodi amcangyfrif, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gyda 3,000 o bobl ar restr aros, y byddai'n cymryd 71 mlynedd i'w chlirio yn ôl ei chyfradd gymeradwyo bresennol. A ydych yn credu fod hynny'n dderbyniol?

Syr Jon Shortridge: Nac ydwyf, mae'n amlwg nad yw'r sefyllfa honno'n dderbyniol. A dyna un o'r rhesymau pan y mae'r system hyblyg newydd wedi ei chyflwyno, er mwyn i awdurdodau lleol allu targedu eu harian ar yr hyn a ystyriant yn flaenoriaethau.

[76] **Alun Cairns:** Dim ond dwy o'r problemau yw'r rheiny—pobl mewn angen heb ddeall y gallant fod yn gymwys i gael grant, ynghyd â'r amserlen hir y gallem ei hwynebu. Os nad ydym am ddefnyddio canllawiau anstatudol, pa ddulliau sydd ar gael i'r Cynulliad er mwyn gwella hyn heb fod yn rhy ganolog, os hoffech chi?

Syr Jon Shortridge: Wel, mae'n debyg ei fod yn rhagweld rhan 4 yn yr adroddiad. Y farn yw, ar ôl gwella cyflwr y stoc tai yn sylweddol nawr o'i gymharu â dechrau'r 1990au, fod gennych bolisi lle mae gan

policy where authorities are much freer to use the money that is available to them in the way that they think best. You then monitor the situation at the all-Wales level, but this is essentially devolution rolling out from the Assembly down to the local authorities, and they are taking the responsibility to address the condition of their housing stock and to put systems in place where they can learn from each other what works. I think that the new system will provide much greater opportunity for innovation than the monolithic, centralist system that we had, for very good reasons, in the 1990s.

[77] **Alun Cairns:** Okay. I want to talk about high administration costs, as mentioned in the fourth bullet point:

‘In some local authorities the cost of administration of home repair assistance was higher than the grants awarded’.

Do you think that that is acceptable, and is it now under control?

Sir Jon Shortridge: Well, I think that Brendon can give you a fuller answer on this than I can, but I think that the basic point is that home repair grants tend to be very small, and so, by definition, the relationship between the cost and the administration will be different from a very significant, in the old days, mandatory grant. There is the issue of balance, is there not? In other parts of this report, there are comments on fraud, and you need a certain minimum of administration if you are to ensure that public money is to be spent properly.

[78] **Alun Cairns:** Does Mr Hilbourne want to respond?

Mr Hilbourne: The Assembly Government does not set any parameters for administration costs; that is a matter for authorities to set them themselves. As Sir Jon said, I think, particularly with the smaller grants—the home repair assistance—inevitably, if the grant is small, the administration costs are going to be rather higher, but I think that that has to be balanced against the benefit to the home owner. In many cases, these are relatively small works enabling elderly people, perhaps, to stay in

awdurdodau lawer mwy o ryddid i ddefnyddio'r arian sydd ar gael iddynt fel y gwelant yn dda. Yr ydych wedyn yn monitro'r sefyllfa drwy Gymru gyfan. Ond datganoli yw hyn yn ei hanfod yn cael ei gyflwyno o'r Cynulliad i lawr i'r awdurdodau lleol, a hwythau'n cymryd y cyfrifoldeb o fynd i'r afael â chyflwr eu stoc tai a gweithredu systemau er mwyn iddynt allu dysgu gan ei gilydd beth sy'n gweithio. Credaf y bydd y system newydd yn gyfle llawer gwell i arloesi na'r system fonolithig, ganolog a oedd gennym, am resymau da iawn, yn y 1990au.

[77] **Alun Cairns:** Iawn. Yr wyf am siarad am gostau gweinyddol uchel, fel a grybwyllir yn y pedwerydd pwynt bwled:

‘Mewn rhai awdurdodau lleol roedd y gost o weinyddu cymorth atgyweirio yn uwch na'r grantiau a ddyfarnwyd’.

A ydych yn meddwl bod hynny'n dderbyniol, ac a yw hyn dan reolaeth bellach?

Syr Jon Shortridge: Wel, credaf y gall Brendon roi ateb mwy cyflawn ar hyn nag y gallaf i, ond credaf mai'r pwynt sylfaenol yw bod grantiau trwsio cartrefi yn tueddu i fod yn fach iawn ac felly, o ganlyniad, bydd y berthynas rhwng y costau a'r gweinyddu yn wahanol i grant gorfodol sylweddol iawn, yn yr hen ddyddiau. Onid oes mater o gydbwysedd? Mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, mae sylwadau ar dwyll, ac mae angen isafswm penodol o weinyddu arnoch os ydych am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n iawn.

[78] **Alun Cairns:** A yw Mr Hilbourne am ymateb?

Mr Hilbourne: Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn gosod unrhyw baramedrau ar gyfer costau gweinyddol; mae hynny'n fater i'r awdurdodau eu gosod eu hunain. Fel y dywedodd Syr Jon, yn arbennig gyda'r grantiau llai—y cymorth trwsio cartrefi—yn anochel, os yw'r grant yn fach, bydd y costau gweinyddol ychydig yn uwch, ond credaf fod angen cydbwyso hynny yn erbyn y manteision i'r perchennog tŷ. Mewn sawl achos, mae'r rhain yn waith trwsio cymharol fach sy'n galluogi i bobl hŷn, efallai, aros yn

their own homes. The cost of administration also needs to be set against what the potential other costs would be, had they not received that grant.

[79] **Alun Cairns:** Sir Jon, you mentioned earlier, when I talked about the problems of the administration, that this was, obviously, as at July, and things might well have changed since then. Can you give me some evidence in terms of on what basis you made the statement?

Sir Jon Shortridge: I think that the only evidence that I can give you is that we now have a totally different system, and local authorities have much greater discretion to do these things in their own way. We are only—what is it—about six months into the new arrangements, so I do not have evidence as to the extent to which there is a transition from the old arrangements to the new. However, it is clearly the case that you cannot judge the present arrangements purely on the basis of the past.

[80] **Alun Cairns:** Okay. Referring to maladministration, paragraph 3.23 states that:

‘Since 1994, 148 complaints have been made in respect of housing grants.’

Granted, that is a relatively small number in terms of the numbers of grants that have been awarded, but maladministration had been found in 27 of those cases, which is 18 per cent. How does that compare with other complaint ratios to the ombudsman?

Sir Jon Shortridge: I would have to give you a note on that because I do not account directly to the local government ombudsman. I do read his annual report, so I just monitor how the overall quality of administration in Welsh local authorities is going as taken by that measure. From memory, I would say that that is really quite a small proportion of the overall findings of maladministration that come to the ombudsman. That is 27 over nine years, or something, so it is around three a year. In relative terms, that is not significant.

eu cartrefi eu hunain. Mae hefyd angen gosod costau gweinyddol yn erbyn y costau posibl eraill, pe na baent wedi derbyn y grant hwnnw.

[79] **Alun Cairns:** Syr Jon, bu i chi grybwyll yn gynharach, pan siaradais am y problemau gweinyddol, mai hyn, yn amlwg, oedd y sefyllfa ym mis Gorffennaf, ac efallai'n wir bod pethau wedi newid ers hynny. A ellwch roi tystiolaeth i mi o ran ar ba sail y gwnaethoch y datganiad hwn?

Syr Jon Shortridge: Credaf mai'r unig dystiolaeth y gallaf ei rhoi i chi yw bod gennym system hollol wahanol bellach, bod gan awdurdodau lleol lawer mwy o ryddid i wneud pethau yn eu ffordd eu hunain. Dim ond ers—faint yw hi—chwe mis y mae'r trefniadau newydd wedi bod ar waith, felly nid oes gennyf dystiolaeth o'r graddau y mae'r pontio wedi digwydd o'r hen drefniadau i'r rhai newydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg na allwch bwysu a mesur y trefniadau presennol ar sail y gorffennol yn unig.

[80] **Alun Cairns:** Iawn. Gan gyfeirio at gamweinyddu, mae paragraff 3.23 yn nodi:

‘Ers 1994, mae'r Ombwdsmon wedi ymdrin â 148 o gwynion mewn perthynas â grantiau tai.’

Yn sicr, mae hwn yn nifer cymharol isel o ran niferoedd y grantiau sydd wedi'u dyfarnu, ond datgelwyd camweinyddu mewn 27 o'r achosion hynny, sy'n 18 y cant. Sut y mae hynny'n cymharu â chymarebau cwyno eraill i'r ombwdsmon?

Syr Jon Shortridge: Byddai'n rhaid i mi roi nodyn i chi ar hynny oherwydd nad wyf yn atebol yn uniongyrchol i ombwdsmon llywodraeth leol. Yr wyf yn darllen ei adroddiad blynyddol, felly yr unig beth yr wyf yn ei wneud yw monitro ansawdd cyffredinol gweinyddu yn awdurdodau lleol Cymru yn ôl y mesurau hynny. O'r hyn a gofiau, byddwn yn dweud bod hon yn gyfran gymharol fach o'r canfyddiadau cyffredinol o gamweinyddu a ddaeth i sylw'r ombwdsmon. Mae hynny'n 27 dros naw mlynedd, neu rywbeth, felly mae hynny oddeutu tri y flwyddyn. Yn gymharol, nid yw hynny'n

llawer.

[81] **Alun Cairns:** I appreciate that, and I am grateful for your answer, but if you could provide a note—

[81] **Alun Cairns:** Yr wyf yn derbyn hynny, ac yr wyf yn ddiolchgar am eich ateb, ond pe gallech ddarparu nodyn—

Sir Jon Shortridge: Yes, I will certainly do that.

Syr Jon Shortridge: Iawn, byddaf yn sicr o wneud hynny.

[82] **Alun Cairns:** I would be grateful for that.

[82] **Alun Cairns:** Byddwn yn gwerthfawrogi hynny.

Do you feel that these complaints have rooted out the full extent of maladministration?

A ydych yn credu bod y cwynion hyn wedi amlygu yr holl gamweinyddu?

Sir Jon Shortridge: I cannot give you an informed answer on that. I think that there is a greater awareness of the ombudsman service in Wales now, so there is probably a greater tendency for people to resort to the ombudsman, but, almost by definition, only the more extreme complaints go to the ombudsman, and there are lower forms of maladministration—if I can put it in that way—which people do not complain about, but if they did, there would be a finding in their favour.

Syr Jon Shortridge: Ni allaf roi ateb goleuedig i chi ar hynny. Credaf fod gwell ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ombwdsmon yng Nghymru bellach, felly mae'n debyg bod tuedd uwch i bobl ofyn am gymorth yr ombwdsmon, ond, oherwydd hynny bron â bod, dim ond y cwynion mwyaf eithafol sy'n cyrraedd yr ombwdsmon, ac mae ffurfiau is o gamweinyddu—os y caf ei roi felly—lle nad yw pobl yn cwyno, ond pe baent yn gwneud, byddai'r canfyddiad o'u plaid.

[83] **Alun Cairns:** My final point relates to the fraud in the system. Paragraph 3.25 refers to a report by the Department for Transport, Local Government and the Regions, which shows a marked difference between the fraud in England and that in Wales. Wales had 2.2 cases of fraudulent activity per 1,000 grants paid, compared with England's rate of 0.4 per cent. Do we have more fraud or better detection?

[83] **Alun Cairns:** Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â'r twyll yn y system. Mae paragraff 3.25 yn cyfeirio at adroddiad gan yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, sy'n dangos gwahaniaeth nodedig rhwng twyll yng Nghymru a Lloegr. Yr oedd gan Gymru 2.2 achos o weithgarwch twyllodrus fesul 1,000 grant a dalwyd, o'i gymharu â chyfradd Lloegr o 0.4 y cant. A oes gennym fwy o dwyll neu well datgeliad?

Sir Jon Shortridge: I would like to think that it is better detection.

Syr Jon Shortridge: Hoffwn gredu mai gwell datgeliad ydyw.

[84] **Alun Cairns:** Why? What evidence do you have to offer?

[84] **Alun Cairns:** Pam? Pa dystiolaeth sydd gennych i'w gynnig?

Sir Jon Shortridge: I think that I will invite Brendon to come in on this because he, personally, took quite a big initiative on it, as I understand it.

Syr Jon Shortridge: Credaf fy mod am wahodd Brendon i gyfrannu yma oherwydd ei fod ef, yn bersonol, wedi chwarae rhan ganolog yn hyn, fel y deallaf i.

We, I think, have taken much stronger action to try to root out fraud in Wales than has been the case in England. It is easier for us, in a sense, in Wales because we have 22 local authorities, and you can get all the key

Yr ydym, yn fy marn i, wedi gweithredu'n fwy cadarn i geisio mynd at wraidd twyll yng Nghymru o'i gymharu â'r hyn ddigwyddodd yn Lloegr. Mae'n haws i ni, o un safbwynt, yng Nghymru oherwydd bod gennym 22

players into a workshop or seminar at the same time and you can get the police in with them. They can then actively share experiences, learn from each other and raise the whole profile of the issue of fraud. That is what we have done in Wales, and I would like to think that, to a very significant extent—if not totally—the fact that we have had higher detection rates in Wales is as a result of that. However, Brendon can perhaps give you slightly more detail.

Mr Hilbourne: Yes, thank you. The report of the Department for Transport, Local Government and the Regions actually recognises that we had a number of initiatives that involved seminars with local authorities and the police authorities in Wales, which raised the profile of the whole issue. I think that what that did, in the light of that—and according to the report—was that it actually identified that higher levels of fraud in Wales were detected. The indications are that that continued, and it is something that we built into the guidance on the new grant system to a very great extent—the importance of authorities continuing with that high level of vigilance to detect fraud.

[85] **Alun Cairns:** Thank you. Finally, Sir Jon—

[86] **Jocelyn Davies:** Before we move on, what sort of fraud are we talking about? People who are making the applications, the builders or who?

Mr Hilbourne: It is a mixture. It ranges from people not being truthful when making applications, for example, about their ownership of properties and income for the means test, and fraudulent activity involving collusion between builders and individual home owners. There is a whole range of possibilities. What we did was to draw on the experiences of those that were identified as a result of this exercise in order to draft very detailed guidance and advice for authorities in how they develop the new systems.

[87] **Jocelyn Davies:** Okay. Sorry, Alun.

awdurdod lleol, a gellir cael yr holl chwaraewyr allweddol i weithdy neu seminar ar yr un pryd a chael yr heddlu i ymuno â hwy. Maent wedyn yn gallu rhannu profiadau'n weithgar, dysgu oddi wrth ei gilydd a chodi proffil cyfan twyll. Dyna'r hyn yr ydym wedi'i wneud yng Nghymru, a hoffwn feddwl, i raddau helaeth iawn—os nad yn llwyr—mai dyma'r rheswm ein bod wedi cael cyfraddau datgelu uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, efallai y gall Brendon roi ychydig mwy o fanylion i chi.

Mr Hilbourne: Iawn, diolch. Mae adroddiad yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau yn cydnabod mewn gwirionedd bod gennym nifer o fentrau a oedd yn cynnwys seminarau gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu yng Nghymru, a gododd broffil yr holl fater. Credaf yng ngoleuni hynny—ac yn ôl yr adroddiad—mai'r hyn a wnaeth hynny oedd nodi bod lefelau uwch o dwyll yng Nghymru wedi'u datgelu. Yr arwyddion yw bod hynny wedi parhau, ac mae'n rhywbeth a ychwanegwyd gennym at y canllawiau ar y system grant newydd i raddau helaeth—sef y pwysigrwydd bod awdurdodau'n parhau i ddatgelu twyll gyda'r un sêl.

[85] **Alun Cairns:** Diolch. Yn olaf, Syr Jon—

[86] **Jocelyn Davies:** Cyn i ni symud ymlaen, am ba fath o dwyll yr ydym yn sôn? Pobl sy'n gwneud y ceisiadau, yr adeiladwyr neu pwy?

Mr Hilbourne: Mae'n gymysgedd. Mae'n amrywio o bobl yn cuddio'r gwir wrth wneud ceisiadau, er enghraifft, am eu perchnogaeth o eiddo ac incwm ar gyfer y prawf modd, a gweithgarwch twyllodrus yn cynnwys cydgyllwynio rhwng adeiladwyr a pherchnogion tai unigol. Mae pob math o bosibiliadau. Yr hyn a wnaethom oedd defnyddio profiadau y rheini a nodwyd o ganlyniad i'r ymarfer hwn er mwyn drafftio canllawiau manwl iawn a chyngor i awdurdodau ar sut i ddatblygu'r systemau newydd.

[87] **Jocelyn Davies:** Iawn. Mae'n ddrwg gennyf, Alun.

[88] **Alun Cairns:** Thank you, Jocelyn. Finally, Sir Jon, bearing in mind the issues that we have discussed in terms of administration, namely administrative problems, maladministration and fraud, and accepting that this is based on the former system rather than the new system, what actions will you be taking to improve it, bearing in mind the non-statutory guidance that the Assembly has chosen to take?

Sir Jon Shortridge: Currently, I am not proposing to take any further action, and the primary responsibility for the administration of housing grants, of whatever nature, rests with the local authorities, and it is for them, in the first instance, to take the necessary action. What we have done, as Brendon referred to, is to provide this very extensive non-statutory guidance, which they can, and do, draw on to assist them to develop systems of best practice. The other thing that we continue to do is to have a very close relationship with the relevant officials in the local authorities concerned so that we can all learn from each other about what works and what does not work. The final thing that I rely on, and local authority members rely on, is the audit process that that authority itself undergoes. I think that those arrangements at the moment are sufficient, given that what this report indicates is that there is no evidence here of very significant problems. In themselves, they are serious, but I would not regard them as being disproportionate, and I think, therefore, that the arrangements that we currently have in place are sufficient.

[89] **Alun Cairns:** Thank you.

[90] **Janet Davies:** Thank you, Alun. Chris, you have some questions?

[91] **Christine Gwyther:** Thank you, Chair. Jon, I would like to explore a little more the guidance that was issued in August 2002. Are you confident that that guidance is adequate to ensure that local authorities are implementing their new housing renewal policies? Obviously, we know that it is not mandatory, but it talks about giving priority to the most vulnerable, especially households with disabled and older occupants, and

[88] **Alun Cairns:** Diolch, Jocelyn. Yn olaf, Syr Jon, gan gofio'r materion yr ydym wedi'u trafod o ran gweinyddu, sef problemau gweinyddu, camweinyddu a thwyll yn bennaf, a derbyn bod hyn ar sail yr hen system yn hytrach na'r system newydd, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella pethau, o ystyried y canllawiau anstatudol y mae'r Cynulliad wedi dewis eu cymryd?

Syr Jon Shortridge: Ar hyn o bryd, nid wyf yn cynnig cymryd unrhyw gamau pellach, ac mae'r prif gyfrifoldeb o weinyddu grantiau tai, o unrhyw fath, yn nwylo'r awdurdodau lleol, a'u cyfrifoldeb hwy, yn y lle cyntaf, fydd cymryd y camau angenrheidiol. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud, fel y cyfeiriodd Brendon ato, yw darparu'r canllawiau anstatudol eang iawn hyn, fel y maent ac y gallant eu defnyddio i'w cynorthwyo i ddatblygu systemau arferion gorau. Y peth arall yr ydym yn parhau i'w wneud yw cynnal perthynas agos iawn â'r swyddogion perthnasol yn yr awdurdodau lleol dan sylw er mwyn i ni gyd allu dysgu am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio gan ein gilydd. Y peth olaf yr wyf yn dibynnu arno, ac mae aelodau awdurdod lleol yn dibynnu arno, yw'r broses archwilio y mae'r awdurdod ei hun yn mynd trwyddo. Credaf fod y trefniadau hynny ar hyn o bryd yn ddigonol, o ystyried bod yr adroddiad hwn yn awgrymu nad oes tystiolaeth yma o broblemau difrifol iawn. Ohonynt eu hunain, maent yn ddifrifol, ond ni fyddwn yn ystyried eu bod yn anghymesur a chredaf, felly, bod y trefniadau sydd gennym ar waith ar hyn o bryd yn ddigonol.

[89] **Alun Cairns:** Diolch.

[90] **Janet Davies:** Diolch, Alun. Chris, mae gennych gwestiynau?

[91] **Christine Gwyther:** Diolch, Gadeirydd. Jon, hoffwn archwilio'r canllawiau a gyhoeddwyd yn Awst 2002 ychydig ymhellach. A ydych yn hyderus bod y canllawiau'n ddigonol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu eu polisiau adnewyddu tai newydd? Yn amlwg, gwyddom nad yw'n orfodol, ond mae'n trafod rhoi blaenoriaeth i'r bobl fwyaf agored i niwed, yn arbennig cartrefi gyda deiliaid

ensuring that applicants for loans are properly advised. I think that that is certainly another precursor to any fraud investigation later on—whether people received the proper advice in the first place. Do you think that the advice that we gave is adequate for local authorities?

Sir Jon Shortridge: I will ask Brendon to come in because, if he did not draft it himself, he was certainly responsible for it, and he continues to be very responsible for the way in which it is implemented. This is very detailed and thorough guidance. It has been prepared in close consultation with local government. It has been prepared by a team of officials in the Assembly, which has worked, for the most part, in this area for a very long time. Brendon, if he likes, can tell you how long he personally has worked in this area. We have a lot of experience, therefore, which we have sought to feed into that guidance, and I actually prefer non-statutory guidance to prescriptive guidance because it sets the tone, and the tone is that we are providing this to help you and we shall be working with you on its implementation, and if things emerge through the implementation of this new system, where the guidance needs to be changed or strengthened, it will. Going back to what I was saying before about having 22 local authorities, we are in a very good position in Wales, as the team here can engage on either a one-to-one basis, or on a collective basis, with all 22 authorities, and we just have shared objectives. We all want to be using our best endeavours to use the money and the systems that are available to improve the housing stock of Wales. So, I am confident that there is the basis here to provide you and me with the sort of assurance that you are seeking, but that assurance will only come if the guidance is used as a living, active document, not as something that we issued in, when was it, July 2002—

[92] **Christine Gwyther:** It was August.

Sir Jon Shortridge: August 2002, you are right. It is not something, therefore, that we issued and then forgot about. That is not the

anabl a hŷn, a sicrhau bod ymgeiswyr am fenthyciadau yn cael eu cynghori'n iawn. Credaf heb os y dylai hynny ragflaenu unrhyw ymchwiliad i dwyll yn ddiweddarach—a wnaeth pobl dderbyn cyngor iawn yn y lle cyntaf. A ydych yn credu bod y cyngor a roesom yn ddigonol i awdurdodau lleol?

Syr Jon Shortridge: Yr wyf am ofyn i Brendon gyfrannu yma oherwydd, os na wnaeth y drafft ei hun, yr oedd yn sicr yn gyfrifol amdano, ac mae'n parhau i fod yn gyfrifol iawn am y ffordd y mae'n cael ei weithredu. Mae'r rhain yn ganllawiau manwl a thrylwyr iawn. Maent wedi'u paratoi mewn ymgynghoriad agos â llywodraeth leol. Maent wedi'u paratoi gan dîm o swyddogion yn y Cynulliad, sydd wedi gweithio, i raddau helaeth, yn y maes hwn am gyfnod hir iawn. Gall Brendon, os yw'n dymuno, ddweud wrthyfch am faint y mae ef yn bersonol wedi gweithio yn y maes. Mae gennym lawer o brofiad, felly, yr ydym wedi ceisio'i ychwanegu at y canllawiau, ac mae'n well gennyf ganllawiau anstatudol na chanllawiau cyfarwyddol oherwydd eu bod yn gosod y naws, a'r naws yw ein bod yn darparu'r rhain i'ch cynorthwyo a byddwn yn gweithio gyda chi ar eu gweithredu, ac os yw pethau'n dod i'r amlwg wrth weithredu'r system hon, lle bydd angen newid neu atgyfnerthu'r canllawiau, bydd hyn yn digwydd. Gan fynd yn ôl at yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud yn gynharach am gael 22 awdurdod lleol, yr ydym mewn sefyllfa dda iawn yng Nghymru, oherwydd y gall y tîm yma weithio naill ai fesul un, neu gyda'i gilydd, gyda phob un o'r 22 awdurdod, a rhannu eu hamcanion. Yr ydym i gyd am wneud ein gorau glas i ddefnyddio'r arian a'r systemau sydd ar gael i wella stoc tai Cymru. Felly, yr wyf yn hyderus bod y sylfaen yma i ddarparu i chi a mi y sicrwydd yr ydych yn chwilio amdano, ond dim ond drwy ddefnyddio'r canllawiau fel dogfen fyw, weithredol y gellir sicrhau'r sicrwydd hwn, nid fel rhywbeth a gyhoeddwyd yn, pryd oedd hynny, Gorffennaf 2002—

[92] **Christine Gwyther:** Ym mis Awst.

Syr Jon Shortridge: Awst 2002, yr ydych yn iawn. Nid yw'n rhywbeth, felly, y bu i ni ei gyhoeddi cyn anghofio amdano. Nid

intention, but Brendon may just want to elaborate.

[93] **Christine Gwyther:** When you come in, Brendon, could you tell me please how many of the 22 authorities have actually taken up this advice?

Mr Hilbourne: I think that the first thing to say is that there is a statutory obligation on local authorities to set out in writing exactly the sort of assistance that they are going to give to individuals, and what the conditions are, so that people are aware of what they are going to get. That is the first point. I think that the second point is that the guidance is non-statutory, it is very detailed, and we worked very closely with local authorities for something like two years before the new system was introduced to make sure that they were well geared up for it. We have had a large number of seminars with local authorities and, as Sir Jon says, we do meet them all very regularly on a one-to-one basis, as well as collectively with groups of authorities with similar problems. All authorities were required to publish a housing renewal policy by 18 July 2003 and I know that they all drew very heavily on the guidance in order to do that. Certainly, the indications in the feedback that we have had from authorities are that they find the guidance very useful and something that they will develop over time. It is our intention to look at the guidance once the system has been up and running for a year or so, consider whether it needs any revision, and add good practice to it, drawing on authorities' experiences over the first year or so of the new system.

[94] **Christine Gwyther:** Did every authority draw up a policy by the due date?

Mr Hilbourne: Yes, they did, and I think that that goes back to one of the earlier questions. That policy was subject to local consultation because it had to set out how they proposed to give assistance locally, so, in terms of the publicity, there was clearly local publicity explaining what the authorities' proposals were.

dyna'r bwriad, ond efallai y bydd Brendon am ymhelaethu.

[93] **Christine Gwyther:** Pan fyddwch yn cyfrannu, Brendon, a allwch ddweud wrthyf faint o'r 22 awdurdod sydd wedi manteisio ar y cyngor hwn mewn gwirionedd?

Mr Hilbourne: Credaf mai'r peth cyntaf i'w ddweud yw bod ymrwymiad statudol ar awdurdodau lleol i nodi'n ysgrifenedig yr union fath o gymorth y maent am ei roi i unigolion, a beth yw'r amodau, er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn y byddant yn ei gael. Dyna'r pwynt cyntaf. Credaf mai'r ail bwynt yw bod y canllawiau'n anstatudol, maent yn fanwl iawn, ac inni weithio'n agos iawn ag awdurdodau lleol am oddeutu dwy flynedd cyn cyflwyno'r system newydd i sicrhau eu bod yn gwbl barod amdani. Yr ydym wedi cynnal llawer o seminarau gydag awdurdodau lleol ac, fel y dywedodd Syr Jon, yr ydym yn eu cyfarfod i gyd yn rheolaidd fesul un, ynghyd ag mewn grwpiau o awdurdodau sydd â phroblemau cyffelyb. Yr oedd yn ofynnol i bob awdurdod gyhoeddi polisi adnewyddu tai erbyn 18 Gorffennaf 2003 a gwn eu bod i gyd wedi defnyddio llawer ar y canllawiau er mwyn gwneud hynny. Yn sicr, yr arwyddion o'r ymateb a gafwyd gan awdurdodau yw bod y canllawiau'n ddefnyddiol iawn yn eu barn hwy ac yn rhywbeth y byddant yn ei ddatblygu gydag amser. Ein bwriad yw edrych ar y canllawiau unwaith y bydd y system wedi'i gweithredu am tua blwyddyn, ystyried a oes angen unrhyw ddiwygiadau, ac ychwanegu arferion da ati, gan ddefnyddio profiadau'r awdurdodau o'r system newydd yn ystod, oddeutu, y flwyddyn gyntaf.

[94] **Christine Gwyther:** A luniodd pob awdurdod bolisi erbyn y dyddiad?

Mr Hilbourne: Do, fe wnaethant, a chredaf fod hynny'n mynd yn ôl at un o'r cwestiynau cynharach. Yr oedd y polisi hwnnw'n destun ymgynghoriad lleol oherwydd bod yn rhaid iddo nodi sut yr oeddynt yn cynnig rhoi cymorth yn lleol, felly, o ran y cyhoeddusrwydd, yr oedd cyhoeddusrwydd lleol yn amlwg i egluro beth oedd cynigion yr awdurdodau.

[95] **Christine Gwyther:** Okay, thank you. Chair, if I can move on to housing—

[96] **Jocelyn Davies:** May I just ask a question? I am sorry to keep butting in, but I did not see anything locally and I read the papers, so just because there is a requirement to publish does not mean that people actually see it. Is it not the same as the point that Mr Cairns made earlier about advertising the fact that things are available to those people who need it most, who are less likely to have access to that information?

Mr Hilbourne: I cannot comment on individual authorities and the approaches that they decided to adopt, obviously, but there was a requirement that there was local consultation and publicity. Now, the extent to which individual local authorities did that was something that local authority members would have had to have been satisfied with, quite clearly. The guidance does stress heavily the importance of not only providing assistance to individuals, but guidance and advice where perhaps assistance with central support is not appropriate.

[97] **Jocelyn Davies:** Okay.

[98] **Christine Gwyther:** Chair, can I move on to housing renewal areas? I think that a lot of us have seen where they can make a huge difference to communities, and I can see the great benefits in terms of cutting down administration and cutting down on fraud, I am sure. However, the latest figures do show that there has been a decline in the number of renewal areas: I think that it has gone down from 28 to 23 in Wales. Would you see that as a statistical blip, or is it a sign of a general trend that local authorities are losing faith, maybe, in that particular policy?

Mr Hilbourne: I do not think so. I am not quite sure about the figures because there are actually a total of 35 renewal areas that have either been declared or are likely to be declared shortly. Some of the renewal areas, of course, have now completed their period of 10 years, and more are coming on stream. I think that when the report was published

[95] **Christine Gwyther:** Iawn, diolch. Gadeirydd, os caf fi symud at dai—

[96] **Jocelyn Davies:** A gaf fi ofyn cwestiwn? Mae'n ddrwg gennyf dorri ar draws eto, ond ni welais unrhyw beth yn lleol ac yr wyf yn darllen y papurau, felly nid yw'r ffaith ei bod yn ofynnol cyhoeddi yn golygu y bydd pobl yn ei weld mewn gwirionedd. Nid yw hyn yr un peth â'r pwynt y gwnaeth Mr Cairns yn gynharach am hysbysebu'r ffaith bod pethau ar gael i'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf, sy'n llai tebygol o fod â mynediad i'r wybodaeth honno?

Mr Hilbourne: Ni allaf roi sylwadau ar awdurdodau unigol a'r dulliau y maent yn penderfynu eu mabwysiadu, yn amlwg, ond yr oedd yn ofynnol iddynt gynnal ymgynghoriad a rhoi cyhoeddusrwydd lleol. Yn awr, yr oedd i ba raddau yr oedd awdurdodau lleol yn gwneud hynny yn rhywbeth a fyddai'n gorfod bodloni aelodau awdurdodau lleol, yn amlwg. Mae canllawiau yn pwysleisio'n gryf y pwysigrwydd nid yn unig o ddarparu cymorth i unigolion, ond o roi arweiniad a chyngor lle nad yw cymorth canolog yn briodol o bosibl.

[97] **Jocelyn Davies:** Iawn.

[98] **Christine Gwyther:** Gadeirydd, a gaf fi symud ymlaen at ardaloedd adnewyddu tai? Credaf fod llawer ohonom wedi gweld lle mae modd gwneud gwahaniaeth enfawr i gymunedau, a gallaf weld y manteision gwych o ran lleihau'r gwaith gweinyddol a lleihau'r twyll, yn sicr. Fodd bynnag, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos y bu gostyngiad yn nifer yr ardaloedd adnewyddu: credaf ei fod wedi gostwng o 28 i 23 yng Nghymru. A fydddech yn ystyried hynny fel eithriad ystadegol, neu a yw'n arwydd o duedd gyffredinol bod awdurdodau lleol yn colli ffydd, efallai, yn y polisi penodol hwnnw?

Mr Hilbourne: Nid wyf yn credu hynny. Nid wyf yn hollol siŵr am y ffigurau oherwydd bod cyfanswm o 35 ardal adnewyddu i gyd sydd naill ai wedi'u datgan neu'n debygol o gael eu datgan yn fuan. Mae rhai o'r ardaloedd adnewyddu, wrth gwrs, wedi cwblhau eu cyfnod 10 mlynedd bellach, ac mae rhagor ar fin gwneud hynny. Pan

there were 28 compared with the 35 now, and also I think that 16 authorities had renewal areas at the time of the report, and it is now 19 that have either had or are in the process of declaring renewal areas. The additional resources that the Assembly Government has made available for renewal areas for 2004-05 is actually an increase of almost £5 million over the current year, which does indicate that this is something that authorities are keen on and are developing. I am increasingly being approached by authorities to talk to them about how they can develop this approach.

[99] **Christine Gwyther:** Thank you. The cyclical nature does explain that there could be a blip at the moment.

Mr Hilbourne: Yes.

[100] **Christine Gwyther:** Some authorities have believed, I think, that renewal areas were too restrictive, certainly in terms of the length of time that they had to operate. Now that that restriction is eased, at least, do you think that that will again give more confidence to local authorities to introduce renewal areas?

Mr Hilbourne: Yes, I think so. In Wales we have always had a slightly different approach, in that the minimum size of renewal areas has been smaller than it is in England, given the nature of some of the housing problems. The changes that were introduced in July 2003 not only enabled local authorities to decide on the length that a renewal area will run for, but also the levels of deprivation in the renewal area, and do not restrict them to a particular proportion of, for example, private sector housing. The problems in renewal areas span housing tenure, and it is important that authorities look at them in a much more comprehensive and cohesive way. The indications certainly are that more authorities are now looking at that approach, which may not have worked previously, because of the limitations and restrictions in the previous arrangements.

[101] **Christine Gwyther:** Okay. Thank you.

gyhoeddwyd yr adroddiad, credaf fod 28 o'i gymharu â'r 35 yn awr, a hefyd credaf fod gan 16 awdurdod ardaloedd adnewyddu pan gyhoeddwyd yr adroddiad, a bod 19 bellach wedi datgan neu yn y broses o ddatgan ardaloedd adnewyddu. Mae'r adnoddau ychwanegol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u darparu i ardaloedd adnewyddu ar gyfer 2004-05 yn gynnydd o bron i £5 miliwn o gymharu â'r flwyddyn gyfredol, sy'n awgrymu bod hyn yn rhywbeth y mae awdurdodau'n awyddus i'w gyflawni a'i ddatblygu. Mae mwy a mwy o awdurdodau'n cysylltu â mi i drafod sut y byddai modd iddynt ddatblygu'r dull hwn.

[99] **Christine Gwyther:** Diolch. Mae'r naws gylchol yn egluro y gallai fod amgylchaidau eithriadol ar hyn o bryd.

Mr Hilbourne: Ydy.

[100] **Christine Gwyther:** Mae rhai awdurdodau wedi credu, fe dybiaf, bod ardaloedd adnewyddu yn rhy gyfyngol, yn sicr o ran yr amser a oedd ganddynt i weithredu. O ystyried bod y cyfyngiad hwnnw wedi'i lacio, o leiaf, a ydych yn credu y bydd hynny eto'n rhoi rhagor o hyder i awdurdodau lleol gyflwyno ardaloedd adnewyddu?

Mr Hilbourne: Bydd, yn ôl pob tebyg. Yng Nghymru yr ydym wedi defnyddio dull ychydig yn wahanol erioed, sef bod isafswm maint ardaloedd adnewyddu yn llai nag yn Lloegr, o ystyried natur rhai o'r problemau tai. Nid yn unig fod y newidiadau a gyflwynwyd yng Ngorffennaf 2003 wedi galluogi awdurdodau lleol i benderfynu ar gyfnod cynnal ardal adnewyddu, ond hefyd lefelau amddifadedd yn yr ardal adnewyddu, ac nid yw'n eu cyfyngu i gyfran benodol o, er enghraifft, tai sector preifat. Mae'r problemau mewn ardaloedd adnewyddu yn pontio deiliadaeth tai, ac mae'n bwysig bod awdurdodau yn edrych arnynt mewn ffordd lawer mwy cynhwysfawr a chydlynol. Yr arwyddion yn sicr yw bod rhagor o awdurdodau bellach yn edrych ar y dull hwn, na fyddai wedi gweithio o bosibl yn y gorffennol, oherwydd y cyfyngiadau yn y trefniadau blaenorol.

[101] **Christine Gwyther:** Iawn. Diolch.

Chair, may I ask a final question? Does the guidance that we issued in August 2002 include advice on how to deal with listed properties? I have many case studies of people living in absolute poverty in a beautiful listed property who do not have the money to do it up to any reasonable standard.

Mr Hilbourne: Yes, the guidance does touch on the approach that authorities should adopt where properties may be in conservation areas or are listed. We have examples in Wales of authorities that work closely with Cadw, for example, so that regeneration schemes draw on a variety of funding sources to tackle not only the immediate housing problems, but also some of the other issues that result from listing or being in a conservation area.

[102] **Christine Gwyther:** Okay. Thank you very much.

[103] **Janet Davies:** Thank you, Christine. Leighton, you have some questions?

[104] **Leighton Andrews:** You have, throughout your answers, referred to the fact that many of these issues are for local authorities to determine, and housing is, by and large, implemented at local authority level. Would you say that your approach to these questions is a pretty 'hands off' one?

Sir Jon Shortridge: I will bring Brendon in because, to a significant extent, he has the 'hands'. I do not regard it as a hands-off approach, but on the other hand, I do not regard it as intrusive. I think that it is getting the right balance. We want to ensure that there are arrangements and systems in place across Wales to satisfy ourselves that sufficient money is being directed to the needs of the housing stock, and being directed in the most appropriate way. However, it is then for the local authorities, through their renewal policies and through the administrative arrangements that they put underneath that, to ensure that that objective is being delivered. It is getting that balance, and the way in which we, under the new system, are seeking to operate with the authorities, is by providing help, guidance, influence, talking to them, learning from

Gadeirydd, a gaf fi ofyn un cwestiwn terfynol? A yw'r canllawiau a gyhoeddwyd yn Awst 2002 yn cynnwys cyngor ar sut i ddelio ag eiddo rhestredig? Mae gennyf sawl astudiaeth achos o bobl yn byw mewn tldi pur mewn eiddo rhestredig hyfryd am nad oes ganddynt yr arian i'w ail-wneud i unrhyw safon resymol.

Mr Hilbourne: Ydynt, mae'r canllawiau'n trafod y dull y dylai awdurdodau ei fabwysiadu os yw eiddo mewn ardaloedd cadwraeth neu wedi'u rhestru. Mae gennym enghreifftiau yng Nghymru o awdurdodau yn gweithio'n agos â Cadw, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod cynlluniau adnewyddu yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cyllid i fynd i'r afael â nid yn unig y problemau tai brys, ond materion eraill hefyd sy'n deillio o restru neu o fod mewn ardal gadwraeth.

[102] **Christine Gwyther:** Iawn. Diolch yn fawr iawn.

[103] **Janet Davies:** Diolch, Christine. Leighton, mae gennych gwestiynau?

[104] **Leighton Andrews:** Gydol eich atebion yr ydych wedi cyfeirio at y ffaith bod nifer o'r materion hyn yn rhai i'r awdurdodau lleol eu pennu, ac mae tai, ar y cyfan, yn cael ei weithredu ar lefel awdurdod lleol. A fydddech yn dweud bod eich agwedd at y cwestiynau hyn yn un eithaf 'hyd braich'?

Syr Jon Shortridge: Yr wyf am ofyn i Brendon gyfrannu yma oherwydd, i raddau helaeth, ef sy'n gyfrifol am y gwaith. Nid wyf yn ei ystyried fel dull hyd braich ond ar y llaw arall, nid wyf yn ei ystyried yn ymwthiol. Credaf ei fod yn ymwneud â sicrhau'r cydbwysedd cywir. Yr ydym am sicrhau bod trefniadau a systemau ar waith ledled Cymru i fodloni ein hunain bod digon o arian yn cael ei gyfeirio i anghenion y stoc tai, ac yn cael ei gyfeirio yn y ffordd fwyaf priodol. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol wedi hynny, drwy eu polisiau adnewyddu a thrwy drefniadau gweinyddu y maent yn eu gweithredu fel sail i hynny, yw sicrhau bod y nod hwnnw yn cael ei gyflawni. Mae'n fater o sicrhau'r cydbwysedd hwnnw, a'r ffordd yr ydym ni, dan y system newydd, yn ceisio gweithredu gyda'r awdurdodau, yw drwy ddarparu

them, and giving them opportunities to learn from each other. I think that that is a very good model, and I am very hopeful that we can make it work. It is certainly a better model than that of the very old days when officials in Government departments effectively dictated what should happen in a local area on housing. Brendon, do you want to come in on that?

Mr Hilbourne: Yes. I certainly agree. I think that with the new system, it is very important that local authorities, which are best placed to determine what the local pressures and priorities are, have the flexibility to tackle those in the way that they feel is most appropriate, and we are certainly not centrally prescriptive in that respect. What we are able to do is to take the all-Wales overview and provide help, guidance and assistance to local authorities. We work very closely with authorities—there is an awful lot of contact—and, as Sir Jon said, there are only 22 of them and the network is very tight. I frequently address local authorities, meet local authorities, and get groups of authorities together. We hold seminars and disseminate good practice to develop the system in Wales whereby authorities can learn from one another and whereby we, at the centre, can help them by being more aware of what is going on throughout the whole of the country.

[105] **Janet Davies:** Can I come in briefly, Leighton, before you go on? Are these consultations and seminars a development since the Assembly was established, or did it happen through the 1990s?

Mr Hilbourne: That happened through the 1990s, but with a much more centrally prescriptive system. The scope for authorities to go away from those seminars, as it were, and do what they felt was appropriate locally was much more limited. I think that since we have had the Assembly and the development of the new system, those have become far more productive and useful events for authorities than they may have been in the past.

cymorth, arweiniad, dylanwad, siarad â hwy, dysgu ganddynt, a chynnig cyfleoedd iddynt ddysgu gan ei gilydd. Credaf fod hynny'n fodel da iawn, ac yr wyf yn obeithiol iawn y gallwn wneud iddo weithio. Mae'n sicr yn well model na'r hen ddyddiau pan oedd swyddogion yn adrannau'r Llywodraeth yn penderfynu beth a ddylai ddigwydd mewn ardal leol o ran tai. Brendon, a ydych am gyfrannu yma?

Mr Hilbourne: Ydwyf. Yr wyf yn sicr yn cytuno. Credaf o ran y system newydd, ei bod yn bwysig iawn bod gan awdurdodau lleol, sydd yn y sefyllfa orau i bennu beth yw'r pwysau a'r blaenoriaethau lleol, yr hyblygrwydd i fynd i'r afael â'r rheini yn y ffordd fwyaf priodol yn eu barn hwy, ac yn sicr nid ydym yn gyfarwyddol yn ganolog yn y cyswllt hwnnw. Yr hyn yr ydym yn gallu ei wneud yw cymryd y safbwynt Cymru gyfan a darparu help, arweiniad a chymorth i awdurdodau lleol. Yr ydym yn gweithio'n agos iawn ag awdurdodau—mae llawer iawn o gysylltiadau—ac, fel y dywedodd Syr Jon, dim ond 22 ohonynt sy'n bodoli ac mae'r rhwydwaith yn gyfyng iawn. Yr wyf yn trafod yn gyson ag awdurdodau lleol, yn cyfarfod awdurdodau lleol, ac yn ymgynnull grwpiau o awdurdodau ynghyd. Yr ydym yn cynnal seminarau ac yn lledaenu arferion da i ddatblygu'r system yng Nghymru lle y gall awdurdodau ddysgu gan ei gilydd a lle y gallwn ni, yn y canol, eu cynorthwyo drwy fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd drwy'r wlad i gyd.

[105] **Janet Davies:** A gaf fi gyfrannu'n gyflym, Leighton, cyn i chi fynd ymlaen? A yw'r ymgynghoriadau a'r seminarau hyn wedi'u datblygu ers sefydlu'r Cynulliad, neu a ddigwyddodd gydol y 1990au?

Mr Hilbourne: Digwyddodd hyn gydol y 1990au, ond gyda system gyfarwyddol llawer mwy canolog. Mae'r cyfle i awdurdodau adael y seminarau hynny, fel petai, a gwneud yr hyn a ystyriant yn briodol yn lleol yn llawer mwy cyfyngedig. Credaf ers i ni gael y Cynulliad a datblygu'r system newydd hon, bod y rhain wedi bod yn ddigwyddiadau llawer mwy cynhyrchiol a defnyddiol i awdurdodau nag yr oeddent o bosibl yn y gorffennol.

[106] **Janet Davies:** Thank you. Sorry, Leighton.

[106] **Janet Davies:** Diolch. Mae'n ddrwg gennyf, Leighton.

[107] **Leighton Andrews:** Okay. Before I go on to risk, can I just be clear that you are happy that, as you have seen the new system operate, you have the right powers in place to enable local authorities to take the most advantage of it?

[107] **Leighton Andrews:** Iawn. Cyn i mi fynd ymlaen at risg, a gaf fi sicrwydd eich bod yn fodlon, ar ôl gweld y system newydd yn cael ei gweithredu, bod gennych y pwerau cywir ar waith i alluogi i awdurdodau lleol fanteisio i'r eithaf arni?

Mr Hilbourne: At this stage, certainly, yes. It is still early days in that the authorities' policies were published back in July last year—some of them are still clearly working through some of the stuff that still flows over from the old system. However, the indications are that the balance is right at this stage.

Mr Hilbourne: Ar hyn o bryd, oes, yn sicr. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd oherwydd mai ym mis Gorffennaf y llynedd y cyhoeddwyd polisiau'r awdurdodau—mae rhai ohonynt yn amlwg yn parhau i weithio drwy rywfaint o'r materion sy'n dal i ddeillio o'r hen system. Fodd bynnag, mae'r arwyddion yn awgrymu bod y cydbwysedd yn iawn ar hyn o bryd.

[108] **Leighton Andrew:** Okay. If we can just look at some of the risks that are identified, in particular in paragraphs 4.13 and 4.14, are you happy that the housing renewal policies that local authorities are producing are actually in accordance with Assembly strategy?

[108] **Leighton Andrew:** Iawn. Os cawn ni edrych ar rai o'r risgiau a nodir, yn arbennig ym mharagraffau 4.13 a 4.14, a ydych yn fodlon bod y polisiau adnewyddu tai y mae awdurdodau lleol yn eu cynhyrchu yn cydymffurfio â strategaeth y Cynulliad mewn gwirionedd?

Mr Hilbourne: The policies are really a matter for individual authorities, and what we have done is given them the non-statutory guidance. There is a whole range of information in the guidance that we have suggested that they take account of in developing their policies. Now, the policies are clearly sensitive to the particular housing dynamics of individual authorities and what they regard as their priorities, and it is important to bear in mind that these are the first policies that they have developed. They will change over time and will develop in the light of experience, but the indications are that a number of authorities have certainly taken advantage of the flexibilities and looked at innovative ways of tackling locally some of what the local issues and priorities and pressures are.

Mr Hilbourne: Mater i awdurdodau unigol yw'r polisiau mewn gwirionedd, a'r hyn yr ydym wedi'i wneud yw rhoi'r canllawiau anstatudol iddynt. Mae amrywiaeth eang o wybodaeth yn y canllawiau yr ydym wedi awgrymu y dylent ei hystyried wrth ddatblygu eu polisiau. Yn awr, y mae'n amlwg bod y polisiau'n sensitif i ddeinameg tai benodol awdurdodau unigol a'r hyn a ystyriant fel eu blaenoriaethau, ac mae'n bwysig cofio mai'r rhain yw'r polisiau cyntaf y maent wedi'u datblygu. Byddant yn newid gydag amser ac yn datblygu yng ngoleuni profiad, ond yr arwyddion yw bod nifer o awdurdodau yn sicr wedi manteisio ar yr hyblygrwydd ac wedi edrych ar ffyrdd arloesol o fynd i'r afael yn lleol â rhai o'r materion a blaenoriaethau a'r pwysau lleol.

[109] **Leighton Andrews:** So basically, then, your strategy for housing renewal is to let local authorities do it? It is hands off, as I said earlier.

[109] **Leighton Andrews:** Felly, yn syml, eich strategaeth ar gyfer adnewyddu tai yw gadael i awdurdodau lleol ei wneud? Mae'n hyd braich, fel y dywedais yn gynharach.

Mr Hilbourne: It is hands off in terms of being prescriptive, but hands on, as it were, in terms of trying to assist and help local

Mr Hilbourne: Mae'n ddull hyd braich o ran bod yn gyfarwyddol, ond yn ymarferol, fel petai, o ran ceisio cynorthwyo a helpu

authorities and to work with them to develop arrangements that enable them to tackle the local issues in a way that then cascades up, as it were, to the overall national issues in the Assembly's national housing strategy, 'Better Homes for People in Wales'.

[110] **Leighton Andrews:** We do have a housing strategy. How do you manage that tension between allowing local authorities to do what they want and ensuring that your strategic objectives are ultimately delivered?

Mr Hilbourne: It is a question of working in partnership with local authorities, and a whole range of issues in the national housing strategy fall into the same category. The responsibility for delivery on the ground of policies that enable the Assembly to meet its overall housing strategy rests with other organisations, principally local authorities. It is a question, I think, of working with the authorities and developing arrangements with them to ensure that the whole approach that they are adopting actually accords with the national strategy. Now, we clearly monitor the progress on the national housing strategy, and if issues emerge that suggest that that is not happening, then we quite clearly will meet with and talk to local authorities about how that can be addressed.

[111] **Leighton Andrews:** Have there been any occasions when you have felt the need to do that?

Mr Hilbourne: Not to date but, as I explained, it is still fairly early in the new system. To date, certainly from the indications that we have had since the policies have been published, that has not so far been a particular issue.

[112] **Leighton Andrews:** Okay. One of the other risks that is identified in the report is the possibility that the quality of local authorities' renewal policies may not be sufficiently high. What is your take on the policies that have been developed so far?

Mr Hilbourne: The policies vary considerably, as I explained, depending on

awdurdodau lleol a gweithio gyda hwy i ddatblygu trefniadau sy'n eu galluogi i fynd i'r afael â'r materion lleol mewn ffordd sydd wedyn yn rhaeadru i fyny, fel petai, i'r materion cenedlaethol cyffredinol yn strategaeth dai genedlaethol y Cynulliad, 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru'.

[110] **Leighton Andrews:** Mae gennym strategaeth dai. Sut yr ydych yn rheoli'r tyndra hwnnw rhwng caniatáu i awdurdodau lleol wneud yr hyn y maent am ei wneud a sicrhau bod eich amcanion strategol yn cael eu bodloni yn y pen draw?

Mr Hilbourne: Mae'n fater o weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, ac mae amrywiaeth eang o faterion yn y strategaeth dai genedlaethol yn dod o fewn yr un categori. Mae'r cyfrifoldeb i ddarparu ar sail polisïau sy'n galluogi i'r Cynulliad fodloni ei strategaeth dai gyffredinol yn nwylo sefydliadau eraill, sef yr awdurdodau lleol yn bennaf. Mae'n ymwneud â gweithio, yn fy marn i, â'r awdurdodau a datblygu trefniadau gyda hwy i sicrhau bod pob agwedd ar y dull o weithio y maent yn ei fabwysiadu yn gydnaws â'r strategaeth genedlaethol. Yn awr, yr ydym yn amlwg yn monitro cynnydd yn y strategaeth dai genedlaethol, ac os oes materion yn codi sy'n awgrymu nad yw hynny'n digwydd, byddwn yn amlwg yn cyfarfod ag awdurdodau lleol ac yn trafod sut y gallant fynd i'r afael â hyn.

[111] **Leighton Andrews:** A fu achlysuron pan yr ydych wedi teimlo bod angen gwneud hynny?

Mr Hilbourne: Ni fu hyd yma ond, fel yr eglurais, mae'n ddyddiau cynnar o hyd ar y system newydd. Hyd yma, yn sicr o'r arwyddion yr ydym wedi'u cael ers cyhoeddi'r polisïau, nid yw hyn wedi bod yn fater penodol hyd yn hyn.

[112] **Leighton Andrews:** Iawn. Un o'r risgiau eraill a nodwyd yn yr adroddiad yw'r posibilrwydd na fyddai ansawdd polisïau adnewyddu awdurdodau lleol yn ddigon da. Beth yw eich barn ar y polisïau sydd wedi'u datblygu hyd yma?

Mr Hilbourne: Mae'r polisïau'n amrywio'n sylweddol, fel yr eglurais, gan ddibynnu ar y

what the local issues and local priorities are. Authorities have taken varying approaches in terms of the extent to which they are prepared to be or intend to be innovative in the early years or the early part of the new system. The policies do not need the approval or endorsement of the Assembly; there is no statutory requirement for that, although, quite clearly, we have a major interest in them. At this stage, no particular issues or problems have emerged that have caused us to question anything specific.

[113] **Leighton Andrews:** How do you assess the quality of local authorities' housing renewal policies?

Mr Hilbourne: There is no formal mechanism for assessing the quality of the policies. At this stage, the policies are really documents that local authorities themselves must be satisfied with. It is a question once again of the balance that Sir Jon mentioned between having a central system that is not centrally prescribed, and local authorities having the responsibility. If an authority decides that a particular policy approach is what it feels is appropriate, then that really must be a matter for it to defend locally.

[114] **Leighton Andrews:** May I ask how many people work in your unit?

Mr Hilbourne: The unit covers a whole range of activities that go beyond private sector renewal. In the unit working on private sector renewal there are, I think, about seven or eight people.

[115] **Leighton Andrews:** So there is no model or anything that you set down of the kinds of things that you want local authorities to do?

Mr Hilbourne: The guidance sets out a whole range of issues that we suggest that authorities should take account of in developing their policies. What it does not do is set out a model policy and, for example, given the different housing dynamics, different priorities and different pressures, some authorities will put more emphasis and more weight on some aspects of the guidance than others.

materion lleol a'r blaenoriaethau lleol. Mae awdurdodau wedi dilyn dulliau amrywiol o ran i ba raddau y maent yn fodlon neu'n bwriadu bod yn arloesol yn y blynyddoedd cynnar neu ran gynnar y system newydd. Nid oes angen i'r Cynulliad gymeradwyo neu ardystio'r polisiau; nid oes gofyniad statudol i wneud hynny, er, yn amlwg, mae gennym ddi-ddordeb mawr ynddynt. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw faterion neu broblemau penodol wedi codi sydd wedi peri i ni gwestiynu unrhyw beth penodol.

[113] **Leighton Andrews:** Sut yr ydych yn asesu ansawdd polisiau adnewyddu tai awdurdodau lleol?

Mr Hilbourne: Nid oes mecanwaith ffurfiol ar gyfer asesu ansawdd y polisiau. Ar hyn o bryd, mae'r polisiau yn ddogfennau y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol eu hunain fod yn fodlon â hwy. Mae'n ymwneud eto â'r cydbwysedd y crybwyllodd Syr Jon rhwng gweithredu system ganolog nad yw'n cael ei phennu'n ganolog, a'r cyfrifoldeb yn nwylo'r awdurdodau lleol. Os yw awdurdod yn penderfynu bod dull polisi penodol yn briodol, yna bydd yn rhaid i hyn fod yn fater y gall ei amddiffyn yn lleol.

[114] **Leighton Andrews:** A gaf fi ofyn faint o bobl sy'n gweithio yn eich uned?

Mr Hilbourne: Mae'r uned yn ymdrin ag amrywiaeth eang o weithgareddau sydd y tu hwnt i adnewyddu yn y sector preifat. Yn yr uned sy'n gweithio ar adnewyddu yn y sector preifat, credaf fod oddeutu saith neu wyth o bobl.

[115] **Leighton Andrews:** Felly nid oes model neu unrhyw beth yr ydych yn ei bennu ynglŷn â'r mathau o bethau yr ydych am i awdurdodau lleol eu gwneud?

Mr Hilbourne: Mae'r canllawiau yn nodi amrywiaeth eang o faterion yr ydym yn awgrymu y dylai awdurdodau eu hystyried wrth ddatblygu eu polisiau. Yr hyn nad yw'n ei nodi yw model o bolisi ac, er enghraifft, o ystyried y gwahanol ddeinamegau tai, gwahanol flaenoriaethau a gwahanol bwysau, bydd rhai awdurdodau yn rhoi mwy o bwyslais a phwys ar rai agweddau ar y canllawiau nag eraill.

[116] **Leighton Andrews:** Okay.

[116] **Leighton Andrews:** Iawn.

[117] **Janet Davies:** Thank you, Leighton. Mark?

[117] **Janet Davies:** Diolch, Leighton. Mark?

[118] **Mark Isherwood:** I would like to develop the issue of risk. Could I first just clarify a couple of points that have developed through this? Clearly, the success of the previous scheme is detailed in the document that we have before us, which states that levels of unfit housing declined from 19.5 per cent in 1986 to 8.5 per cent in 1998. So, clearly, the new policy needs to show an improvement even on that. That will be measured by outcomes, obviously, for local people. How will you systematically monitor that to ensure that progress is being achieved?

[118] **Mark Isherwood:** Hoffwn ymhelaethu ar fater risg. A gaf fi'n gyntaf ofyn am esboniad am ychydig bwyntiau sydd wedi'u datblygu drwy hyn? Yn amlwg, mae manylion am lwyddiant y cynllun blaenorol yn y ddogfen sydd o'n blaenau, sy'n nodi bod lefelau tai anaddas wedi gostwng o 19.5 y cant yn 1986 i 8.5 y cant yn 1998. Felly, yn amlwg, mae angen i'r polisi newydd ddangos cynnydd i ni ar hynny hyd yn oed. Bydd hyn yn cael ei fesur gan ganlyniadau, yn amlwg, ar gyfer pobl leol. Sut y byddwch yn monitro hynny'n systematig i sicrhau bod cynnydd yn cael ei gyflawni?

Mr Hilbourne: The various house condition surveys will measure reductions in fitness and repair costs and so on. We do monitor regularly the levels of expenditure and grant activity—actually a range of renovation activity, rather than just grant activity—under the new system. As I said, at this stage it is still in its infancy, but over time that will give us an indication of how successful the system is.

Mr Hilbourne: Bydd y gwahanol arolygon o gyflwr tai yn mesur gostyngiadau mewn costau addasrwydd a thrwsio ac ati. Yr ydym yn monitro lefelau gwariant a gweithgarwch grant yn rheolaidd—amrywiaeth o weithgarwch adnewyddu mewn gwirionedd, yn hytrach na gweithgarwch grant yn unig—dan y system newydd. Fel y dywedais, ar hyn o bryd mae'n ddyddiau cynnar o hyd, ond gydag amser bydd hyn yn rhoi arwyddion i ni o lwyddiant y system.

[119] **Mark Isherwood:** Right. Just to help me understand, on the funding—and perhaps I have missed this—what degree of hypothecation exists?

[119] **Mark Isherwood:** Iawn. Er mwyn i mi gael deall yn iawn, o ran yr ariannu—ac efallai fy mod wedi colli hyn—faint o glustnodi sydd?

Mr Hilbourne: From 2004-05, the only hypothecation will be for renewal areas. All of the rest of housing renovation activity will be funded by local authorities from their unhypothecated resources.

Mr Hilbourne: O 2004-05, caiff arian ddim ond ei glustnodi ar gyfer ardaloedd adnewyddu. Bydd yr holl weithgarwch adnewyddu tai arall yn cael ei gyllido gan awdurdodau lleol o'u hadnoddau sydd heb eu clustnodi.

[120] **Mark Isherwood:** So that is from the revenue support grant and locally raised council tax?

[120] **Mark Isherwood:** Felly mae hynny o'r grant cymorth refeniw a'r dreth gyngor a godir yn lleol?

Mr Hilbourne: Yes.

Mr Hilbourne: Ydy.

[121] **Mark Isherwood:** Right. In terms of additional private sector funding, are you also taking account of, for instance, schemes proposed by the Council of Mortgage

[121] **Mark Isherwood:** Iawn. O ran cyllid ychwanegol yn y sector preifat, a ydych hefyd yn ystyried, er enghraifft, cynlluniau a gynigir gan Gyngor y Benthycwyr Morgais i

Lenders to help the banking-excluded who live in unfit properties?

Mr Hilbourne: We have developed a small working group with the Council of Mortgage Lenders, local authorities and a number of housing organisations to look, for example, at the scope for developing loan arrangements, perhaps, for those people who may not qualify for grants, but may have difficulty accessing commercial loans. That work is ongoing. There are a number of issues that need to be resolved in that, but at this stage the difficulty has been in identifying the size of that sector of the market. However, that work is ongoing.

[122] **Mark Isherwood:** Briefly again on renewal areas—the emphasis here is obviously on private sector housing—what measures, if any, are being taken to look at this practice elsewhere where action zones or renewal areas address both social housing and private housing within the same renewal project?

Mr Hilbourne: The changes to the renewal area rules this year, as I explained, freed up authorities from having to have a particular proportion of private sector housing. We now have several examples in Wales of renewal areas where there is fairly significant public sector housing as well as private sector housing. What is important there, as I explained earlier, is to ensure that the regeneration crosses tenures. It is all about tackling the problems in a community rather than in one tenure within a community. We periodically develop good practice on renewal areas and hold seminars with local authorities and the intention is, as the experience develops from these areas where there is a cross-tenure approach, to disseminate that to other authorities.

[123] **Mark Isherwood:** So, to an extent, that will also be determined by local authorities' future decisions on stock transfer and so on?

Mr Hilbourne: That will have some influence, yes.

gynorthwyo pobl heb gyfrifon banc sy'n byw mewn eiddo anaddas?

Mr Hilbourne: Yr ydym wedi datblygu gweithgor bach gyda Chyngor y Benthycwyr Morgais, awdurdodau lleol a nifer o sefydliadau tai i edrych, er enghraifft, ar y posibiladau o ddatblygu trefniadau benthyca, o bosibl, ar gyfer y bobl hynny nad ydynt yn gymwys ar gyfer grantiau, ond sy'n wynebu anawsterau efallai wrth geisio benthyciadau masnachol. Mae'r gwaith hwn ar y gweill ar hyn o bryd. Mae nifer o faterion sydd angen eu datrys yn hyn o beth, ond ar hyn o bryd yr anhawster yw nodi maint y sector hwn yn y farchnad. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn ar y gweill.

[122] **Mark Isherwood:** Yn gryno eto ar ardaloedd adnewyddu—y mae'r pwyslais yma yn amlwg ar dai yn y sector preifat—pa fesurau, os o gwbl, sy'n cael eu cymryd i edrych ar yr arfer hwn mewn mannau eraill lle mae parthau gweithredu neu ardaloedd adnewyddu yn mynd i'r afael â thai cymdeithasol a thai preifat o fewn yr un prosiect adnewyddu?

Mr Hilbourne: Mae'r newidiadau i reolau'r ardaloedd adnewyddu eleni, fel yr eglurais, yn sicrhau bod gan awdurdodau ryddid rhag gorfod cael cyfran benodol o dai yn y sector preifat. Mae gennym sawl enghraifft yng Nghymru bellach o ardaloedd adnewyddu lle mae llawer o dai yn y sector cyhoeddus ynghyd ag yn y sector preifat. Yr hyn sy'n bwysig yma, fel yr eglurais yn gynharach, yw sicrhau bod yr adnewyddu yn croesi deiliadaethau. Mae'n ymwneud â mynd i'r afael â phroblemau mewn cymuned yn hytrach nag mewn un ddeiliadaeth o fewn cymuned. Yr ydym yn datblygu arferion da yn gyson mewn ardaloedd adnewyddu ac yn cynnal seminarau gydag awdurdodau lleol a'r bwriad, wrth i brofiadau ddatblygu o'r ardaloedd hyn lle y mae croes-ddeiliadaeth, yw rhannu hynny gydag awdurdodau eraill.

[123] **Mark Isherwood:** Felly, i ryw raddau, bydd hynny hefyd yn cael ei bennu gan benderfyniadau awdurdodau lleol yn y dyfodol ar drosglwyddo stoc ac ati?

Mr Hilbourne: Bydd hynny'n cael rhywfaint o ddylanwad, bydd.

[124] **Mark Isherwood:** Moving on then quickly, paragraphs 4.16 to 4.17 on risk address whether local authorities have the capacity to make the most of the new system. Also, paragraph 4.17 states that changes to local government

‘have already served to start making local authorities think in a different way.’

Do any of the new policies produced by local authorities so far look innovative?

Mr Hilbourne: Yes. We have examples from a number of authorities where they have developed local forms of assistance, local grants, to tackle particular local issues. One authority, for example, has developed a local grant simply to help disabled people with stair lifts without their having to go through the whole process of disabled facility grants. There are others that have developed innovative approaches to help landlords to improve their properties, perhaps where they are linked with nomination rights for local authorities. There are a range of innovative new ideas that are beginning to emerge, even in the early stages of the new system.

[125] **Mark Isherwood:** Right. Well, I was going to ask you to give us some examples, but obviously you have just given us some examples.

Mr Hilbourne: Yes, I have. I have some more, obviously—

[126] **Mark Isherwood:** Perhaps you could develop that then. That would be helpful.

Mr Hilbourne: Yes, sure. Just bear with me for one moment; I have a few here.

Right. Sorry, I did not have them all to hand immediately. One authority has developed a minor works grant that is concentrated on occupiers and tenants that fall into particular tax bands. Another authority has provided priority home improvement assistance to

[124] **Mark Isherwood:** Gan symud ymlaen yn gyflym, mae paragraffau 4.16 i 4.17 ar risg yn mynd i'r afael ag a oes gan awdurdodau lleol y gallu i fanteisio i'r eithaf ar y system newydd. Yn ogystal, mae paragraff 4.17 yn nodi bod newidiadau i lywodraeth leol

‘eisoed wedi dechrau gwneud i awdurdodau lleol feddwl mewn ffordd wahanol.’

A oes unrhyw un o'r polisiau newydd a gynhyrchwyd gan awdurdodau lleol wedi ymddangos yn arloesol hyd yma?

Mr Hilbourne: Do. Mae gennym enghreifftiau o nifer o awdurdodau sydd wedi datblygu dulliau lleol o roi cymorth, grantiau lleol, i fynd i'r afael â materion lleol penodol. Mae un awdurdod, er enghraifft, wedi datblygu grant lleol yn syml i gynorthwyo pobl anabl gyda lifftiau grisiau heb fod angen iddynt fynd drwy holl broses grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae eraill wedi datblygu dulliau arloesol o gynorthwyo landlordiaid i wella eu heiddo, os ydynt yn gysylltiedig o bosibl â hawliau enwebu i awdurdodau lleol. Mae amrywiaeth o syniadau newydd arloesol yn dechrau ymddangos, hyd yn oed yng nghyfnodau cynnar y system newydd.

[125] **Mark Isherwood:** Iawn. Wel, yr oeddwn am ofyn i chi roi rhai enghreifftiau i ni, ond yn amlwg yr ydych newydd roi ychydig o enghreifftiau i ni.

Mr Hilbourne: Do. Mae gennyf ragor, yn amlwg—

[126] **Mark Isherwood:** Efallai y gallwch ymhelaethu ar hynny. Byddai hynny'n ddefnyddiol.

Mr Hilbourne: Iawn. Os byddwch yn amyneddgar â mi am eiliad; mae gennyf rai yma.

Iawn. Mae'n ddrwg gennyf, nid oeddynt wrth law yn syth. Mae un awdurdod wedi datblygu grant ar gyfer mân waith sy'n canolbwyntio ar breswylwyr a thenantiaid o fewn bandiau treth penodol. Mae awdurdod arall wedi gwneud cymorth gwella tai yn flaenoriaeth i

owners in renewal areas or areas that are designated as Communities First areas. There is a small repair assistance grant in one authority to provide discretionary help, particularly to low income owners, for improvements and adaptations. There are various fast-track application systems that a number of authorities have introduced. One authority has a particular grant to help to bring empty property over shops back into use, with some assistance. There is another authority that has assistance to help to prevent people from going into hospital by adapting their homes in fairly minor ways. Another authority has a particular scheme to help children with asthma with no grant conditions, so that they can get access to help very quickly. So, there are a whole range of activities, even at the very early stages of the new system, which we would expect to develop and to become good practice that other authorities may want to adopt.

[127] **Mark Isherwood:** To develop particularly on that last comment, paragraph 4.17 goes on to talk about peer pressure, which:

‘should help to foster the innovative thinking required; there should be plenty of opportunities for authorities to learn from each others’ experiences’.

What systematic checks and balances are in place to make sure that that happens? How are you going to share good practice among local authority staff, both within local authorities and between them?

Mr Hilbourne: The various local authority representative organisations, such as the Welsh Local Government Association and the Society of Directors of Public Protection in Wales, work very closely with us to disseminate information. We get involved with seminars, conferences and networks. Given that there are only 22 local authorities, it works very effectively. We also plan to look again at the detailed non-statutory guidance once the system has been up and running for a year or so, as I explained, and look at the scope for attaching good practice notes to that, drawing on authorities’

berchnogion mewn ardaloedd adnewyddu neu ardaloedd sydd wedi’u dynodi fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae grant bach fel cymorth trwsio ar gael mewn un awdurdod i roi cymorth dewisol, yn arbennig i berchnogion ag incwm isel, i wneud gwelliannau ac addasiadau. Mae amryw o systemau ymgeisio carlam wedi’u cyflwyno gan sawl awdurdod. Mae gan un awdurdod grant penodol i gynorthwyo pobl i ddechrau defnyddio eiddo segur uwchben siopau, gyda rhywfaint o gymorth. Mae awdurdod arall yn cynnig cymorth i atal pobl rhag gorfod mynd i’r ysbyty drwy addasu eu cartrefi mewn ffyrdd cymharol syml. Mae awdurdod arall yn gweithredu cynllun penodol i gynorthwyo plant gydag asthma heb amodau grant, er mwyn iddynt gael cymorth yn gyflym iawn. Felly, mae amrywiaeth eang o weithgareddau, hyd yn oed yng nghyfnodau cynnar y system newydd, a disgwyliwn eu datblygu a’u gwneud yn arferion da y gall awdurdodau eraill o bosibl ddewis eu mabwysiadu.

[127] **Mark Isherwood:** I ymhelaethu’n benodol ar y sylw diwethaf, mae paragraff 4.17 yn mynd ymlaen i sôn am bwysau cymheiriaid, a ddylai:

‘helpu i feithrin y dull arloesol o feddwl sydd ei angen; dylai fod digon o gyfle i awdurdodau ddysgu o brofiadau ei gilydd’.

Pa ddulliau o archwilio systematig sydd ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd? Sut yr ydych yn mynd i rannu arferion da ymhlith staff awdurdodau lleol, o fewn awdurdodau lleol a rhyngddynt?

Mr Hilbourne: Mae’r sefydliadau amrywiol sy’n cynrychioli awdurdodau lleol, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru, yn gweithio’n agos iawn gyda ni i ledaenu gwybodaeth. Yr ydym yn cymryd rhan mewn seminarau, cynadleddau a rhwydweithiau. Gan mai 22 awdurdod lleol yn unig sydd gennym, mae’n gweithio’n effeithiol. Yr ydym hefyd yn bwriadu edrych eto ar y canllawiau anstatudol manwl ar ôl i’r system fod ar waith am flyddyn neu fwy, fel yr eglurais, ac edrych ar y posibiladau o ychwanegu nodiadau arferion da at hynny,

experience.

[128] **Mark Isherwood:** Right. Well, moving on to paragraph 4.18, again on risk, this points out that fraud may continue to be a problem, or could potentially increase. Do the systems for allocating finance to the public look like they would have sufficient safeguards to prevent that fraud or to reduce the likelihood of fraud being perpetrated? I am thinking here of both potential fraud by the public, and also fraud within a local authority. Again, paragraph 4.18 says:

‘If local authorities follow this guidance they may develop tight local controls’.

To me, that seems a little loose, so I am hoping to get some more reassurance from you.

Mr Hilbourne: The guidance goes into considerable depth on the importance of having systems in place to detect fraud, whether internal or external. The importance of that, you are absolutely right, cannot be overemphasised, but the local authorities’ internal audit systems, the Audit Commission and the checks on all aspects of local authority activities will be brought to bear on this in the same way as on anything else that authorities do.

Sir Jon Shortridge: If I can just add to that, so that there is no misunderstanding, the responsibility to protect local authorities from fraud rests with the local authority officials themselves and, ultimately, with the chief executive. That is where the accountability is. My role, and our role, is to make sure that the nature of the risks that those authorities could be running as a result of these activities are well known and understood, which is why the guidance is so important, as is the fact that Brendon and his team are actively keeping that guidance under review and seeking to learn from experience throughout Wales.

[129] **Mark Isherwood:** If allegations of fraud are made against a local authority or a section of a local authority at any level, and if the local authority then appoints, for instance,

gan ddefnyddio profiadau awdurdodau.

[128] **Mark Isherwood:** Iawn. Wel, gan symud ymlaen at baragraff 4.18, eto ar risg, nodir yn y fan hon y gall twyll barhau i fod yn broblem, neu y gallai, o bosibl, gynyddu. A yw’n ymddangos bod gan y systemau ar gyfer dyrannu cyllid i’r cyhoedd ddigon o fesurau diogelwch i atal y twyll hwn neu i leihau’r posibilrwydd o gyflawni twyll? Yr wyf yn meddwl yma am dwyll posibl gan y cyhoedd, a hefyd twyll o fewn awdurdod lleol. Eto, mae paragraff 4.18 yn dweud:

‘Os bydd awdurdodau lleol yn dilyn y canllawiau hyn efallai y byddant yn datblygu rheolaethau lleol tynn’.

I mi, mae hyn yn ymddangos ychydig yn llac, felly yr wyf yn gobeithio cael mwy o sicrwydd gennych chi.

Mr Hilbourne: Mae’r canllawiau yn trafod yn fanwl bwysigrwydd gweithredu systemau i ganfod twyll, boed yn fewnol neu’n allanol. Ni ellir gorbwysleisio hynny, yr ydych yn hollol gywir, ond bydd systemau archwilio mewdol awdurdodau lleol, y Comisiwn Archwilio a’r gwiriadau ar bob agwedd ar weithgareddau awdurdodau lleol yn berthnasol i hyn yn yr un ffordd ag y maent yn berthnasol i bopeth arall y mae awdurdodau’n ei wneud.

Syr Jon Shortridge: Os caf fi ychwanegu at hynny, er mwyn sicrhau nad oes camddealltwriaeth, cyfrifoldeb swyddogion awdurdodau lleol eu hunain yw diogelu awdurdodau lleol rhag twyll ac, yn y pen draw, cyfrifoldeb y prif weithredwr ydyw. Dyna lle mae’r atebolrwydd. Mae fy swyddogaeth i, ac ein swyddogaeth ni, yn ymwneud â sicrhau bod natur y risgiau y gallai’r awdurdodau hynny eu hwynebu o ganlyniad i’r gweithgareddau hyn yn hysbys ac yn ddealladwy, a dyna pam mae’r canllawiau mor bwysig, ynghyd â’r ffaith bod Brendon a’i dîm wrthi’n adolygu’r canllawiau a cheisio dysgu o brofiadau ledled Cymru.

[129] **Mark Isherwood:** Os oes honiadau o dwyll yn cael eu gwneud yn erbyn awdurdod lleol neu adran o awdurdod lleol ar unrhyw lefel, ac os yw’r awdurdod lleol wedi hynny

external auditors to investigate that, could that not be seen as a conflict of interest, where the local authority is setting the terms of reference for that investigation?

Sir Jon Shortridge: I would have thought that an external auditor would take a very close interest in fraud, or potential evidence of fraud and, while it might welcome some terms of reference that the local authority would give it, it would reserve the right itself to determine exactly how it was going to examine and audit the matter concerned.

[130] **Mark Isherwood:** Even if it falls outside a timescale set by the local authority?

Sir Jon Shortridge: Well, I may need to reflect on that question if I have misunderstood something. However, essentially, I see the role of the external auditors to satisfy themselves on a whole range of matters, including fraud, and they will not be constrained by any conditions that someone like me might try to impose on them, and rightly so.

[131] **Mark Isherwood:** Thank you. I turn to paragraphs 4.19 and 4.20, which discuss the risk that the public may not perceive as fair a system that varies between local authorities. What work, if any, has been done to assess the public's perception of the old and new systems for accessing financial help with housing renovations?

Sir Jon Shortridge: I think that that is mainly for Brendon.

Mr Hilbourne: I think that the first point is that local authorities have had to publish their housing renewal policies and, while I cannot comment on the extent or nature of the publicity, the guidance quite clearly sets out the fact that they should not only publicise it, but consult with local interested people. As I say, I cannot comment on individual local authorities' activity. It is not for the Assembly to be prescriptive; the Assembly cannot be prescriptive about how authorities approach that. What is important, I think, in that document, is that people in the locality know what assistance they may or may not be

yn penodi, er enghraifft, archwilwyr allanol i ymchwilio i hynny, oni ellid ystyried hynny fel gwrthdaro buddiannau, lle mae'r awdurdod lleol yn pennu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw?

Syr Jon Shortridge: Byddwn yn tybio y byddai archwilydd allanol yn dangos diddordeb mawr mewn twyll, neu dystiolaeth bosibl o dwyll ac, er y byddai o bosibl yn croesawu rhyw gylch gorchwyl y byddai'r awdurdod lleol yn ei bennu, byddai'n cadw'r hawl ei hun i bennu'n union sut y byddai'n arolygu ac yn archwilio'r mater dan sylw.

[130] **Mark Isherwood:** Hyd yn oed os yw y tu hwnt i amserlen a bennir gan yr awdurdod lleol?

Syr Jon Shortridge: Wel, efallai y bydd angen i mi fyfyrio ar y cwestiwn hwnnw os wyf wedi camddeall rhywbeth. Fodd bynnag, yn y bôn, credaf mai swyddogaeth yr archwilwyr allanol yw bodloni eu hunain ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys twyll, ac ni fyddant yn cael eu cyfyngu gan unrhyw amodau y gallai rhywun fel minnau geisio'u gosod, ac mae hynny'n ddigon teg.

[131] **Mark Isherwood:** Diolch. Yr wyf yn troi at baragraff 4.19 a 4.20, sy'n trafod y risg na fydd y cyhoedd efallai yn ystyried bod system sy'n amrywio rhwng awdurdodau lleol yn un deg. Pa waith, os o gwbl, sydd wedi'i wneud i asesu barn y cyhoedd am yr hen system a'r un newydd wrth geisio cael gafael ar gymorth ariannol i adnewyddu tai?

Syr Jon Shortridge: Credaf mai mater i Brendon yw hwnnw yn bennaf.

Mr Hilbourne: Credaf mai'r pwynt cyntaf yw bod awdurdodau lleol wedi gorfod cyhoeddi eu polisïau ar adnewyddu tai ac, er na allaf roi sylwadau ar ehangder neu natur y cyhoeddusrwydd, mae'n amlwg bod y canllawiau yn nodi y dylent nid yn unig ei gyhoeddi, ond y dylent hefyd ymgynghori â phobl leol sydd â diddordeb. Fel y dywedais, ni allaf wneud sylwadau ar weithgarwch awdurdodau lleol unigol. Ni ddylai'r Cynulliad fod yn gyfarwyddol; ni all y Cynulliad fod yn gyfarwyddol ynglŷn â sut y mae awdurdodau yn mynd i'r afael â hynny. Yr hyn sy'n bwysig, yn fy marn i, yn y

likely to get. In other words, the policy should set out what the local authorities' priorities are. Inevitably, there will be people who will not receive assistance who, under the previous system, may have done so. That will be a matter for the local authority in terms of what its priorities are, and issues that the individual would need to take up with the local authority.

[132] **Mark Isherwood:** So, from your end of this, there would be no actual formal public consultation?

Mr Hilbourne: No.

[133] **Mark Isherwood:** Okay, thank you.

[134] **Janet Davies:** Thank you, Mark. I have a couple of questions, and the first is to Sir Jon. We have had a few questions on fraud in the latter part of this hearing. Do you think that the danger of fraud embedded in a council's culture would have disappeared with local government reorganisation?

Sir Jon Shortridge: Sorry, I missed that—embedded in?

[135] **Janet Davies:** Embedded in a council's culture. Do you think that it would have disappeared with local government reorganisation?

Sir Jon Shortridge: I cannot comment on that. As far as I am concerned, all officials, certainly senior officials, in local government have a responsibility to establish a culture in their organisation that is based on the seven values of public life, and they should have arrangements in place actively to root out any possibilities for fraud. It is my impression that the standards of public administration in local government in Wales are quite high. They could be higher; there are incidents of fraud, some of which are referred to in this document. I think that the new arrangements that have come into place following the Assembly, through the Wales programme for improvement, and through the greater opportunity for peer pressure and for using

ddogfen honno, yw bod pobl leol yn gwybod pa gymorth y maent yn debygol neu'n annhebygol o'i gael. Mewn geiriau eraill, dylai'r polisi nodi beth yw blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Yn anochel, ni fydd pawb a fyddai wedi derbyn cymorth dan y system flaenorol yn derbyn cymorth dan y system newydd. Bydd hynny'n fater i'r awdurdod lleol o ran beth yw ei flaenoriaethau, a materion y bydd angen i'r unigolyn eu trafod â'r awdurdod lleol.

[132] **Mark Isherwood:** Felly, o'ch safbwynt chi, ni fyddai ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol mewn gwirionedd?

Mr Hilbourne: Na.

[133] **Mark Isherwood:** Iawn, diolch.

[134] **Janet Davies:** Diolch, Mark. Mae gennyf rai cwestiynau, ac mae'r cyntaf i Syr Jon. Yr ydym wedi clywed rhai cwestiynau am dwyll yn rhan ddiwethaf y gwrandawriad hwn. A ydych yn credu y bydd y perygl o dwyll sy'n rhan annatod o ddiwylliant cyngor wedi diflannu ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol?

Syr Jon Shortridge: Mae'n ddrwg gennyf, collais hynny—yn rhan annatod o'r diwylliant?

[135] **Janet Davies:** Yn rhan annatod o ddiwylliant cyngor. A ydych yn credu y bydd wedi diflannu ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol?

Syr Jon Shortridge: Ni allaf wneud sylwadau ar hynny. O'm rhan i, mae gan bob un o swyddogion, yn sicr uwch swyddogion, llywodraeth leol gyfrifoldeb i sefydlu diwylliant yn eu sefydliad sy'n seiliedig ar y saith o werthoedd ym mywyd cyhoeddus, a dylent roi trefniadau ar waith i ganfod unrhyw bosibilrwydd o dwyll. Yr wyf i o'r farn bod safonau gweinyddiaeth gyhoeddus mewn llywodraeth leol yng Nghymru'n gymharol dda. Gallent fod yn well; mae achosion o dwyll, a chyfeirir at rai yn y ddogfen hon. Credaf y dylai'r trefniadau newydd sydd wedi'u gweithredu ers sefydlu'r Cynulliad, drwy raglen Cymru ar gyfer gwella, a thrwy y cyfleoedd pellach i gymheiriaid ddwyn pwysau a chyfleoedd i

audit and regulation to drive up standards, should all be helping to ensure that the standard of financial administration generally is increased and, therefore, that the risk of fraud is reduced. However, as anyone who has had a career in public administration knows, you must always be vigilant as these things can and do happen if the opportunities for them are created.

[136] **Janet Davies:** Okay. Thank you, Sir Jon. I have two financial questions, just to clarify a couple of issues in my mind. The first is about the funding for the now unhypothecated grants. Previously, repair grants were funded out of supplementary credit approvals, mainly—virtually entirely in fact. These unhypothecated grants are obviously not funded in that way. Are they funded from basic credit approvals, from the general revenue settlement, or from a mixture of the two? If it is from revenue, have the councils' revenue settlements increased to take account of this?

Mr Hilbourne: For the current financial year, they were funded from a mixture of supplementary credit approvals and basic credit approvals. For the next financial year, when the prudential system is introduced, they will be funded principally from the general capital funding, which includes capital grants, but authorities, with the flexibilities in the system, are free to use whatever other resources they may have available to supplement that if it enables them to address a local priority.

[137] **Janet Davies:** Okay, thank you. That has cleared that in my mind. The second matter is that, in the past, there were occasions when a repair grant actually exceeded the value of the property. Is there a ceiling to stop that happening, or is that, in effect, excluded because house prices have risen so much?

Mr Hilbourne: When home renovation grants became discretionary in 1996, the upper limit was removed, in effect. The new

ddefnyddio archwiliadau a rheoliadau i wella safonau, gynorthwyo i sicrhau bod safon gweinyddiaeth ariannol yn gwella'n gyffredinol ac, felly, bod y risg o dwyll yn lleihau. Fodd bynnag, fel y gŵyr unrhyw un sydd wedi cael gyrfa mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, mae'n rhaid bod yn wyliadwrus drwy'r amser gan y gall y pethau hyn ddigwydd os oes cyfleoedd ar eu cyfer yn cael eu creu.

[136] **Janet Davies:** Iawn. Diolch, Syr Jon. Mae gennyf ddau gwestiwn ariannol, er mwyn egluro un neu ddau o faterion. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r cyllid ar gyfer y grantiau sydd erbyn hyn heb eu clustnodi. Yn y gorffennol, yr oedd grantiau trwsio'n cael eu cyllido gan gymeradwyaethau credyd atodol, yn bennaf—bron yn gyfan gwbl a dweud y gwir. Mae'n amlwg nad yw'r grantiau hyn sydd heb eu clustnodi yn cael eu cyllido yn y ffordd honno. A ydynt yn cael eu cyllido o gymeradwyaethau credyd sylfaenol, o'r setliad refeniw cyffredinol, neu o gymysgedd o'r ddau? Os yw o refeniw, a yw setliadau refeniw y cyngor wedi'u cynyddu i ystyried hyn?

Mr Hilbourne: Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, fe'u cyllidwyd o gymysgedd o gymeradwyaethau credyd atodol a chymeradwyaethau credyd sylfaenol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, pan gyflwynir y system ddarbodus, byddant yn cael eu cyllido'n bennaf o'r cyllid cyfalaf cyffredinol, sy'n cynnwys grantiau cyfalaf, ond mae gan awdurdodau, gyda'r hyblygrwydd yn y system, ryddid i ychwanegu at hynny drwy ddefnyddio unrhyw adnoddau eraill sydd ganddynt os yw'n eu galluogi i fynd i'r afael â blaenoriaeth leol.

[137] **Janet Davies:** Iawn, diolch. Mae hynny wedi egluro hyn i mi. Yr ail fater yw bod achosion, yn y gorffennol, lle yr oedd grant trwsio yn fwy na gwerth yr eiddo mewn gwirionedd. A oes terfyn uchaf i atal hyn rhag digwydd, neu, i bob pwrpas, a yw hyn yn amherthnasol am fod prisiau tai wedi codi cymaint?

Mr Hilbourne: Pan ddaeth grantiau adnewyddu cartrefi yn ddewisol yn 1996, symudwyd y terfyn uchaf, i bob pwrpas.

system increases that flexibility—there is no grant limit set centrally, although a number of local authorities have decided to introduce an upper limit locally. I think that that needs to be read alongside the flexibility that authorities now have to offer alternative forms of help, for example, assistance with moving house if perhaps the cost of repairs exceeds the value and it is not cost-effective to undertake it. However, those are issues that individual local authorities have taken account of in their new housing renewal strategies.

[138] **Janet Davies:** Okay, thank you, that is great. I have a general question at the end. Do you think that the intended benefits of the new policy on housing renewal will outweigh the possible risks that could be there?

Mr Hilbourne: Local authorities were very keen to see the changes that were introduced towards the middle of last year. When the statutory instrument was introduced and the new system was debated in the Assembly, Members were unanimously in favour of it. There are risks in the system, but I think that what is important is that those are effectively managed by local authorities, and that is something that we have been very anxious to emphasise in the detailed guidance. The opportunities are there if authorities decide to take advantage of them.

[139] **Janet Davies:** Right, thank you.

Sir Jon Shortridge: May I just add to that? More generally, I think that the model that we have applied is, in principle, a very good model because it seeks to get the balance of responsibilities between the Assembly and local government right, in my view. However, as the report rightly indicates, there are risks associated with it, so to ensure that it works effectively, all sides have to work very actively to seek to make it work. We will certainly have to monitor at the all-Wales level just how well authorities, individually and collectively, are performing. I think that if we can make this work it will be very much to the benefit of Wales and, in particular, those people currently living in poor quality

Mae'r system newydd yn cynyddu'r hyblygrwydd hwnnw—ni osodir terfyn grant yn ganolog, er bod nifer o awdurdodau lleol wedi penderfynu cyflwyno terfyn uchaf yn lleol. Credaf fod angen ystyried hynny ochr yn ochr â'r hyblygrwydd sydd gan awdurdodau bellach i gynnig gwahanol fathau o gymorth, er enghraifft, cymorth i symud tŷ os yw costau gwaith trwsio o bosibl yn uwch na'r gwerth ac na fyddai gwneud y gwaith yn gost-effeithiol. Fodd bynnag, mae'r rheini yn faterion y mae awdurdodau lleol unigol wedi'u hystyried yn eu strategaethau newydd ar adnewyddu tai.

[138] **Janet Davies:** Iawn, diolch, mae hynny'n wych. Mae gennyf gwestiwn cyffredinol i gloi. A ydych yn credu y bydd buddiannau arfaethedig y polisi newydd ar adnewyddu tai yn gorbwyso'r risgiau posibl y gellid eu hwynebu?

Mr Hilbourne: Yr oedd awdurdodau lleol yn awyddus iawn i weld y newidiadau a gyflwynwyd tua chanol y llynedd. Pan gyflwynwyd yr offeryn statudol a phan trafodwyd y system newydd yn y Cynulliad, yr oedd Aelodau'n unfrydol o'i phlaid. Mae risgiau yn y system, ond credaf mai'r hyn sy'n bwysig yw bod y rheini'n cael eu rheoli'n effeithiol gan awdurdodau lleol, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn awyddus iawn i'w bwysleisio yn y canllawiau manwl. Mae cyfleoedd ar gael os yw awdurdodau'n penderfynu manteisio arnynt.

[139] **Janet Davies:** Iawn, diolch.

Syr Jon Shortridge: A gaf fi ychwanegu at hynny? Yn fwy cyffredinol, credaf fod y model yr ydym wedi'i weithredu, mewn egwyddor, yn fodel da iawn oherwydd ei fod yn ceisio sicrhau bod y cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau'r Cynulliad a llywodraeth leol yn gywir, yn fy marn i. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad yn ei nodi'n gywir, mae risgiau'n gysylltiedig â hyn, felly er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol, mae'n rhaid i bob ochr weithio'n galed iawn i geisio gwneud iddo weithio. Bydd yn rhaid i ni'n sicr fonitro ar lefel Cymru gyfan i weld pa mor dda y mae awdurdodau, yn unigol a chyda'i gilydd, yn perfformio. Os gallwn wneud i hyn weithio credaf y bydd er budd

housing.

Cymru ac, yn benodol, y bobl hynny sy'n byw mewn tai o ansawdd gwael ar hyn o bryd.

[140] **Janet Davies:** Thank you very much, Sir Jon. I thank all the witnesses. A draft transcript of the evidence-taking session will be sent to you before it is published.

[140] **Janet Davies:** Diolch yn fawr iawn, Syr Jon. Diolch i'r holl dystion. Bydd trawsgrifiad drafft o'r sesiwn cymryd tystiolaeth yn cael ei anfon atoch cyn ei gyhoeddi.

Daeth y sesiwn cymryd tystiolaeth i ben am 11.00 a.m
The evidence-taking session ended at 11.00 a.m.

Note provided by Sir John Shortridge, 4 February 2004

In the course of my evidence I undertook to provide two notes. One on how many people the (disability) grants had allowed to live in their own homes (Q39 Leighton Andrews) and the other on complaint ratios to the Ombudsman (Q 81 Alun Cairns).

On the first our data only covers the number of grants paid rather than the number of people helped, but there should be a very close correlation between the two.

A total of 29,537 Disabled Facilities Grants were approved between 1997-1998 and 2002-2003.

On the Ombudsman cases ratio the Ombudsman's Office have provided the information below from which you will see that Housing Grant Reports were less than 1% of the total complaints made and less than 14% of the total number of reports issued.

1994-95 to 2002-3	Number of Complaints	Number of Reports	Reports as a percentage of complaints	Reports as percentage of total cases	Housing Reports as percentage of Reports
TOTAL	8659	253	2.92%		
Housing Grants	734	35	4.77%	0.40 %	13.83 %
All Housing	2734	63	2.30%	0.73 %	24.90 %
Planning	2251	82	3.64%	0.95 %	32.41 %

THE AUDIT COMMITTEE

The National Assembly's Audit Committee ensures that proper and thorough scrutiny is given to the Assembly's expenditure. In broad terms, its role is to examine the reports on the accounts of the Assembly and other public bodies prepared by the Auditor General for Wales; and to consider reports by the Auditor General for Wales on examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which the Assembly has used its resources in discharging its functions. The responsibilities of the Audit Committee are set out in detail in Standing Order 12.

The membership of the Committee as appointed on 3 June 2003:

Janet Davies (Plaid Cymru) - Chair
Leighton Andrews (Labour)
Mick Bates (Liberal Democrat)
Alan Cairns (Conservative)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Christine Gwyther (Labour)
Denise Idris-Jones (Labour)
Mark Isherwood (Conservative)
Val Lloyd (Labour)
Carl Sargeant (Labour)

Further information about the Committee can be obtained from:

Siwan Davies
Clerk to the Audit Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA
Tel: 02920 898501
Email: Audit.comm@wales.gsi.gov.uk